# Nodi ac asesu defnydd o dir gwledig

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys nodi ac asesu defnydd o dir gwledig. Mae hefyd yn cynnwys rhyngweithio rhwng defnydd gwahanol o dir a'r ffordd y gellir rheoli hyn i gynyddu cyfleoedd ar gyfer integreiddio a rheoli adnoddau yn gynaliadwy e.e. amaethyddiaeth, dalgylch dŵr, bioamrywiaeth, hamdden ac ati.

Mae'r safon hon yn addas ar gyfer y rheiny sydd angen nodi ac asesu defnydd o dir gwledig.

Yn y safon hon, mae'r term "defnydd o dir" hefyd yn cynnwys dŵr.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi ac asesu defnydd gwahanol o dir gwledig
2. nodi ac asesu'r prif ffactorau sydd yn dylanwadu ar y defnydd o dir gwledig
3. nodi'r synergeddau a'r tensiynau posibl rhwng defnydd gwahanol o dir gwledig
4. nodi ac asesu cyfleoedd ar gyfer defnydd integredig o dir gwledig
5. nodi rôl asiantaethau'r llywodraeth a phartneriaid a dylanwadwyr allweddol eraill yn lleihau tensiynau defnydd o dir a hwyluso defnydd integredig o dir gwledig
6. nodi ac asesu cyfleoedd ar gyfer gwella cynaliadwyedd a'r defnydd effeithlon o adnoddau
7. nodi ac asesu mesurau gwahanol y gellid eu cymryd i wella defnydd integredig o dir gwledig ymhellach

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. natur cyfyngiadau neu ddynodiadau safle a'r ffordd y gallai'r rhain ddylanwadu ar y defnydd o dir gwledig
2. y prif ffactorau ffisegol a ffactorau allweddol eraill sydd yn dylanwadu ar ddefnydd o dir gwledig a'r ffordd y mae'r rhain yn effeithio ar y cyfleoedd ar gyfer defnydd gwahanol o dir
3. effeithiau arferion rheoli tir gwledig blaenorol
4. y tensiynau a'r synergeddau sydd yn bodoli rhwng defnydd o dir, yn hanesyddol ac yn gyfredol
5. sut i nodi ac asesu cyfleoedd ar gyfer defnydd amgen, integredig a mwy cynaliadwy o dir a defnydd mwy effeithlon o adnoddau
6. y ffordd y gall asiantaethau a pholisïau'r llywodraeth leihau tensiynau'n ymwneud â defnydd o dir a helpu i hwyluso cyfleoedd ar gyfer defnydd integredig a chynaliadwy o dir
7. rôl partneriaid a dylanwadwyr allweddol yn lleihau tensiynau'n ymwneud â defnydd o dir h.y. cyrff preifat, cyhoeddus, gwirfoddol a chymunedol
8. pwysigrwydd rheoli adnoddau cynaliadwy wrth ystyried cyfleoedd ar gyfer defnydd integredig o dir
9. y mesurau y gellir eu sefydlu i wella integreiddio rhwng defnydd o dir, ac effeithiolrwydd y mesurau hyn

## Geirfa

**Ffactorau allweddol sydd yn dylanwadu ar ddefnydd o dir gwledig**: ffisegol (lleoliad daearyddol, hinsawdd, daeareg); adnoddau naturiol; amgylcheddol (yn cynnwys newid hinsawdd); ecolegol; hanesyddol; defnydd blaenorol a chyfredol; gweithgareddau eraill yn yr ardal; isadeiledd; mynediad cyhoeddus a hawliau tramwy; dynodiadau; deddfwriaeth; polisïau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a byd-eang; ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, aesthetig ac economaidd; cynaliadwyedd

Gallai **defnydd o dir gwledig** gynnwys: amaethyddiaeth; garddwriaeth; crofftio a chadw tyddyn; coedwigaeth a choetir; helwriaeth; rheoli pysgodfeydd; bioamrywiaeth a chadwraeth (yn cynnwys mentrau "ailwylltio"); creu ynni adnewyddadwy; cydgasgliadau; dyframaethu; dŵr yfed; twristiaeth a hamdden; cynhyrchu bwyd a diod; cipio carbon a rheoli'r peryg o lifogydd

**Gallai cyfyngiadau neu ddynodiadau safle gynnwys:**

- Parc Cenedlaethol
- Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI)
- Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC)
- Ardal Gwarchodaeth Arbennig (SPA),
- Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AONB)
- Gwarchodfa Natur Genedlaethol
- Parth Cadwraeth Morol
- Safle Treftadaeth y Byd (WHS)
- Safle Archaeolegol
- Parth Perygl Nitrogen (NVZ)
- Parthau Diogelu Dŵr Yfed
- Heneb Gofrestredig (SM)
- Adeilad Rhestredig (LB)
- Parciau a Gerddi Cofrestredig (RPG)
- Maes Brwydr Cofrestredig (RB)

- Safleoedd wedi eu nodi ar y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol (HER)
- Hawliau tramwy cyhoeddus a thir mynediad
- Ardal hyfforddi'r fyddin

Nodi ac asesu defnydd o dir gwledig

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2020 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2025 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANCS70 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Garddwriaeth a choedwigaeth, Gweithiwr Ystâd, Amaethyddiaeth |
| **Cyfres/Set** | Garddwriaeth, Gwaith coed, Cadwraeth Amgylcheddol, Helwriaeth a Rheoli Bywyd Gwyllt, Dyframaethu, Rheoli Pysgodfeydd |
| **Geiriau Allweddol** | nodi; archwilio; gwledig; tir |